

81)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth:cyfarfod misol.Yr Hen Gapel,Pencader

Cofnodion Gorffennaf 16eg 2018- 8yh

Cynghorwyr yn bresennol:Annette Davies(cadeirydd)E. Jones,D.Davies,V.Davies, M.Griffiths,Y.Griffiths,G. Jones,H.Lewis.

Ymddiheuriadau:M.Evans,B.Cobain,CSir L.Evans. Absennol:Arwel Davies.

Clerc:Anita Evans, Heddlu:PCSO Shanice Thomas.

1)Croesawodd Annette Davies (cadeirydd)bawb i'r cyfarfod.Llongyfarchwyd D.Davies ar ennill ei radd,ac i B.Cobain ar ddod yn famgu.

2)Heddwas-dywedodd y PCSO fod y rhybudd CPN a roddwyd I berchennog y cŵn oedd yn crwydro ar hewl Glantweli Fach wedi gweithio;mae 500 litr o olew wedi ei ddwyn ar hewl gefn I Landysul rhwng Mai a Mehefin;ceir yn rasio yn ardal Pencader—cafwyd disgrifiad;yn anffodus mae cyffuriau yn sawl man yn ein Plwyf-soniodd am faes parcio'r Pafiliwn;mae fan transit anghyfreithlon wedi bod yn yr ardal yn casglu sgrap;mae'r swyddog nawr yn gallu rhoi dirwyon am faw cŵn a sbwriel.Efallai bydd prosiect arolygu cyflymder traffig yn digwydd.Diolchwyd iddi cyn gadael.

3)Doedd dim datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr.

4)Cofnodion mis Mehefin—roedd y Clerc am gyfeirio at un camgymeriad—M.Griffiths wedi sôn am arwydd ffordd wedi ei fwrw—yr un yn troi am Landysul heibio bont Bwlchog sy'n gywir,nid arwydd o'r ffordd newydd.Cafwyd y cofnodion yn gywir—D.Davies yn cynnig a M.Griffiths yn eilio.

5)Materion yn codi:

a)Cyfleusterau Alltwalis—darllenwyd e-bost oddiwrth Rhys Davies(Cyngor Sir)yn dweud fod peth o'r gwaith gwella wedi ei wneud,a bod rhagor i'w cyflawnu.Penderfynwyd gofyn iddo ddod i'n cyfarfod ar y safle ddechrau Medi.

b)Cornel Chwarae—yn dilyn graffiti ar y cyfarpar,trafodwyd gwrthod mynediad i'r ferch.Byddwn yn arolygu'r sefyllfa.

c)Mynwent y Plwyf: yn dilyn nifer o achosion o ganiau a photeli cwrw'n cael eu gadael ar rai beddau,mae'r Cyngor yn rhoi caniatad i Haydn Jones a'r Clerc daflu'r eitemau i'r bin.Mae'r coed o gwmpas yr Ardd Goffa'n anniben,ac fe edrychwn fewn i osod clawdd is ym Medi.

ch)Pwyllgor Statkraft: penodwyd Dylan Davies i fod yn aelod yn lle Lyn Evans.

d)Farmers—diweddariad am y sbwriel—mae peth wedi ei glirio,ond mae rhagor i'w wneud.

dd)Atebion C.Sir L.Evans i ofidiau'r Cynghorwyr mis diwetha:

Broadband:wedi siarad a Chynulliad Cymru - yn y broses o drefnu bod y gweinidog dros "Digital Inclusion" Julie James yn dod i gyfarfod(ydd) cyhoeddus yn y Sir, yn gobeithio trefnu bod swyddogion o BT hefyd yn dod i'r un cyfarfod – wedi neud cais iddynt ymweld â'r pen yma o'r Sir – ddim yn addo y daw ond bydd rhaid mynd â'n cwynion iddi ble bynnag y bydd. Mi fuodd cyfarfod tebyg yng Ngheredigion rhai misoedd yn ôl ac maen debyg yn ôl Elin Jones ei bod yn llwyddiant.

Caniatad Cynllunio i ledaenu mynedfa – Os yw'r fynedfa ar "classified road" hynny yw hewl A, B, neu C mae angen caniatad cynllunio i wneud newidiadau i'r fynedfa

Newid enw tŷ - Gweler yr ymateb oddiwrth y Swyddog i hyn. Dwi wedi siarad â hi ers derbyn y neges yma, mae'n debyg os oes rhywun yn rhoi enw ar stryd newydd neu ystâd – gwneir cais gan y Cyngor bod yr enw yma yn un Cymraeg (mae'n bolisi). Ma hawl gan rhywun newid o'r Gymraeg i'r Saesneg ar dŷ unigol, ond rhaid iddo fod yn resymol – ddim yn "offensive". Gan fod yna bolisi ar gyfer enwau strydoedd rwyf wedi dechrau gwneud ymholiadau i weld os oes modd cael 82)polisi ar gyfer enwau tai unigol – hynny yw polisi a fyddde'n dweud bod dim hawl newid enw tŷ o'r Gymraeg i'r Saesneg ond bod hawl rhoi enw Saesneg ar dŷ newydd . Dyam'r neges yn Saesneg:

In order to officially change the name of a property, an application form will need to be completed and returned to the Street Naming & Numbering section in Planning.

I can email you an editable form for completion, along with a location plan if you provide the existing address of the property. There is a fee of £25 for this service.

Once the application is received and processed, the change of name will be sent to Royal Mail who usually confirm it has been added to their live database within 4-7 working days. Once confirmation has been received, we will notify the applicant as well as other internal and external partners.

e) Audit: mae'r gwaith papur wedi ei dderbyn oddiwrth ein cyfrifydd, ac fe'i derbyniwyd gan y Cyngor—cynnig H.Lewis, eilio Y.Griffiths. Arwyddwyd gan E.Jones (cadeirydd '17-'18).

f) sedd—ar bwys Eglwys Pencader wedi gwaethygu—angen edrych fewn i osod sedd newydd.

6) Adroddiad ariannol: cafwyd yn gywir cynnig—V.Davies, eilio D.Davies. Bilie i'w talu:

Cyflogau: £1,603.39; Green House (cafnau): £300.00; Kangaloos: £110.40;
Clerc (1/2 rent y ffon): £65.82; Cyfrifydd (L.Evans): £294.00; Clerc (costau 17/05-27/06): £61.05
Rhain i'w talu: cynnig V.Davies, eilio D.Davies.

7) Cynllunio: (wedi e-bostio)

W/36661—estyniad, a newidiadau-Coedybryn, Gwyddgrug i Evans. (dim gwrthwynebiad)

8) Gohebiaeth: C.Sir Gâr:

a) Cyflenwi a chadw'r Gofrestr Etholwyr—copi newydd bob Rhagfyr, ac argymhellir dinistrio'r hen gofrestr yn ddiogel.

b) Adran Dai yn paratoi arolwg i bob cartref. c) Llwybrau Diogel yn y Gymuned—pecyn cais.

ch) Cylchlythyr Cyngorau—Peter Hughes Griffiths. d) Gweithdy Cynllun Datblygu Lleol—Llandeilo 30/07/18

d) Côt Ymddygiad—nodiadau o'r cwrs diwetha.

83) Gohebiaeth: Eraill:

dd) Ceredigion—C. Datblygu Lleol—ymgyngoriad safleoedd posib.

e) Pecyn Innogy—esboniad o'r gronfa gymunedol.

f) U.LL.Cymru—hysbys o bwyllgor ardal a chofnodion; hyfforddiant yn San Pedr 31/07 (cyllid).

ff) Shirley Mason—e-bost yn mynegu diddordeb yn y sedd wag ar y Cyngor yma. Mae'r Cyngorwyr yn ei derbyn fel aelod.

g) Cymdeithas yr Iaith: fforwm yn Llyfrgell Caerfyrddin Medi 15ed o 10 hyd 12.30.

83) Gohebiaeth (parhâd)

ng)Mynyddoedd y Cambrian—chwilio am noddwyr i greu map ymwelwyr.

h)U.LL.Cymru—y Gynhadledd 29/09—bydd y Clerc ac H.Lewis yn mynychu.

i)H.Lewis—e-bost yn tynnu ein sylw at ddymchwel rhan o'r wal o gwmpas Mynwent Troedyrhiw.Bydd ymchwiliad.

Wedi eu e-bostio i'r aelodau:

U.LL.C—trefn carffosiaeth;cylchlythyron -comisiynydd pobl hyn;comisiynydd yr Heddlu;Tân ac Achub.

9)U.F.Arall:

Y.Griffiths---gofid am gar yn parcio tu fas Dilen,New Inn yn gyson.

M.Griffiths—Pontweli-wedi cael cwyn am y tir anniben ochr draw Valley Services;twll ar yr hewl rhwng Caeglas a Dolcoed;cap yn hongian lawr ar y polyn gole rhwng Dolcoed a Dwylan;gofyn hanes y llwybr troed o Morris Tce—M.Murray fod cysylltu o'r C.Sir.

E.Jones—eisie atgoffa'r C.Sir am y cerbiau rhydd o flaen siop y sgwâr,Pencader;RMA heb fod nôl i orffen y gwaith ar Heol y Felin;wedi dechrau gwneud cais i gwmni arall leoli diffibrillators ym Mhencader;car yn parcio'n barhaol ar y palmant nes mlaen na safle Garej Tweli.

G.Jones---angen tocio coeden ar dir Glantalog i wella gwelediad gyrrwyr;arwydd 30mya ben hewl Dolgran angen sylw.

V.Davies—rhagor o gwynion am hewl Farnyard o Bontweli.

A.Davies---mae'r llinellau sig-sag tu fas Ysgol Cae'r Felin,a'r marciau gwrth sgid ar sgwâr Llan'el wedi troelio,ac angen sylw;mae'r ffordd tuag at County Gate yn oleddu;cywilydd gweld iard Ysgol New Inn;deiliad Gwynfryn Gwyddgrug wedi adeiladu clawdd o ddom ceffyl ar ochr y ffordd fawr.Hewl Penlan-Penrhiw—gratin angen sylw;sbwriel yn cael ei daflu ar dop Penlan.

B.Cobain(neges)—angen sylw ar y glustog cyflymder tu fas y siop flodau ym Mhencader.

Daeth y cyfarfod I ben am 9.40yh

82a) Ariannol/financial statement:

Taliadau/Payments

Derbyniadau/receipts:

Cyflogau/HMRC: £1,603.39

Yn y Banc (12/7/18) £81,984.77

Kangaloos 110.40

Costau'r Clerc 126.87

L.Evans(cyfrifydd) 294.00

Green House 300.00

Cyfanswm/total: £2,434.66

£81,984.77

Yn y Banc/Bank reconciliation:2/09/18

£79,550.11

*Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth /Community Council **Agenda Medi 2018***

Clerc:Mrs.S.Anita Evans,Frongelli,New Inn,Pencader,Sir Gar.SA39 9AZ.

Ffôn: 01559 384 266 e-bost:anitaevans9@hotmail.co.uk

Bydd cyfarfod nesa'r Cyngor uchod ar nos Lun Medi'r 17eg 2018 am 8 yr hwyr yn Yr Hen Gapel, Pencader.The next meeting of the above Council will be held on Mon.Sept. 17th 2018 at 8pm at The Old Chapel Pencader.Dyma'r Agenda/Agenda as follows:

- 1)Croeso,derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb,a chofnodi absenoldeb.A word of welcome,receive apolgies for absences,and register absences.
- 2)Adroddiad yr Heddwos os yn bresennol/Police Officer's report if attending the meeting.
- 3)Datgan diddordeb gan y Cynghorwyr/declaration of interest by Councillors.
- 4)Cadarnhau,ac arwyddo cofnodion y cyfarfod blaenorol/confirm minutes of previous meeting,and sign minutes.
- 5)Materion yn codi o'r cofnodion/matters arising from the minutes of the previous meeting:
 - a)tendr wal y C.Chwarae/Play Corner improvements;
 - b)clawdd o ddom –tro Gwyddgrug/manure dumped on Gwyddgrug hill;
 - c)mynedfa gefn i Fynwent Troedyrhiw/back entrance to Alltwalis Cemetery;
 - ch)defibrillators
- 6)Trafod y cyfrifion,ac os yn dderbyniol,cymeradwyo eu derbyn,a thalu unrhyw filiau.Finance-confirm the report is correct,and pay any bills.
- 7)Materion cynllunio/planning matters:
 - a)Capel Alltwalis;b)land adjacent to 2 Maesyberllan,Gwyddgrug.
- 8)Darllen gohebiaeth,ac ymateb yn briodol/read any correspondence and respond accordingly.
 - a)Hywel Dda—adroddiad yr Ymgynghoriad/report on the consultation;
 - b)Review of Boundary Commission.
- 9)Unrhyw fater arall---er gwybodaeth yn unig /Any Other Business—for information only.

Diolch. *S.Anita Evans(Clerc).* 11/09/18